# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Chwefror 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## (317)v4

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

### Cwestiwn Brys

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newyddion cyffrous ynghylch sicrhau ffatri Aston Martin i Gymru?

EAQ(4)0682(EST)

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

(60 munud)

**NDM5974 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2015.

Sylwer: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 17 Chwefror 2016.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Ymateb Llywodraeth Cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

## 5 Dadl ar yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau'r cynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor Rhanbarthau'r UE

(60 munud)

**NNDM925 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor y Rhanbarthau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2016.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Pwyllgor y Rhanbarthau

**Cyflwynwyd y Gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Cymru a'r DU barhau i fod yn aelodau o'r UE ac yn penderfynu meithrin deialog gadarnach gyda sefydliadau Ewropeaidd fel Pwyllgor y Rhanbarthau.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5976 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r grym i unigolion a grwpiau cymunedol fynd i'r afael â materion o bwys lleol;

2. Yn croesawu'r ymgyrch i sbarduno refferendwm ar gyfer cyflwyno maer a etholir yn uniongyrchol i Gaerdydd ac yn nodi'r rhan y gallai rôl debyg ei chwarae ledled Cymru o ran gwella democratiaeth, atebolrwydd a'r broses o wneud penderfyniadau ar y lefel leol;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i feithrin cenedl o ddinasyddion gweithgar a gwybodus sy'n cymryd rhan ac yn ymgysylltu drwy:

(a) cyflwyno refferenda ar gynlluniau arfaethedig i uno cynghorau a chynyddu treth gyngor awdurdodau lleol uwchlaw trothwy penodol fel bod unigolion yn cael mwy o lais mewn perthynas â sut y caiff penderfyniadau eu gwneud yn eu hardal;

(b) cyflwyno pwerau newydd i wella'r broses o gynnwys unigolion mewn penderfyniadau lleol allweddol, fel yr hawl gymunedol i wneud cais a'r hawl gymunedol i herio, oll o dan agenda hawliau cymunedol; ac

(c) gostwng y trothwy ar gyfer deiseb i sbarduno refferendwm ar feiri a etholir yn uniongyrchol mewn ardal.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn credu bod cynigion Plaid Cymru ar gyfer ymgysylltu lleol, a nodir yn y papur ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, yn darparu sail gadarnhaol i gyrraedd y nod o rymuso unigolion yn y Cynulliad nesaf.

'Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus: Papur Polisi Plaid Cymru '

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 3(a) a rhoi yn ei le:

cyflwyno pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod cynghorwyr yn fwy atebol i'w hetholwyr.

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5975 Russell George (Sir Drefaldwyn)**

Darparu ar gyfer canolbarth Cymru - pam fod angen signal ffonau symudol cyffredinol i drawsnewid economi canolbarth Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 17 Chwefror 2016 i'w hateb ar 24 Chwefror 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

**1.** Gwenda Thomas (Castell-nedd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r diwydiant adeiladu yng Nghymru? OAQ(4)0672(EST)

**2.** Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chyd-weinidogion am y seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol? OAQ(4)0674(EST)

**3.** Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth ar gyfer gweithgynhyrchu yn Nhorfaen? OAQ(4)0679(EST)

**4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0676(EST)

**5.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi gorllewin Cymru? OAQ(4)0675(EST)

**6.** Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith i wella'r A55? OAQ(4)0673(EST)

**7.** Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi mwy o fuddsoddiad yn Nhorfaen? OAQ(4)0678(EST)

**8.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fewnfuddsoddi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0677(EST)

**9.** Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd cronfa benthyciadau i ficrofusnesau Cymru? OAQ(4)0680(EST)

**10.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0670(EST)

**11.** **Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau cyflawni arbedion sydd i'w paratoi gan asiantau cefnffyrdd? OAQ(4)0681(EST)**W**

**12.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydlynu gwasanaethau bws a rheilffordd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0671(EST)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.